Cefnogi Busnesau yng Ngwynedd
Supporting Businesses in Gwynedd

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

# Bwletin Gwasanaeth Cefnogi Busnes Gwynedd 31.03.2023

Mae hwn yn fersiwn Gymraeg o ddau e-bost sydd yn cael eu gyrru allan, mae fersiwn Saesneg yn dilyn – gellir gweld holl fwletinau sydd wedi eu gyrru ar: https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19

This is the Welsh version of two emails sent out, the English version will follow – all sent bulletins can be accessed on: https://www.gwynedd.llyw.cymru/businesscovid19

# RECRIWTIO: Ychydig o lefydd ar ôl yn ffeiriau swyddi Gwaith Gwynedd yn Nhywyn ac Abermaw

Mae gan Gwaith Gwynedd ychydig o lefydd ar ôl yn ffair swyddi Tywyn, i'w gynnal yn Byw'n Iach Bro Dysynni ar 26 Ebrill 2023 ac yn ffair swyddi Abermaw i'w gynnal yn Byw'n Iach Pafiliwn ar 4 Mai 2023. Bu'r ffair swyddi ddiweddar ym Mangor yn llwyddiant mawr, gyda'r busnesau oedd yn recriwtio yn cynnig cyfweliadau ar y diwrnod i 50 o'r 115 wnaeth fynychu yn chwilio am swydd.

Os ydych yn recriwtio ac yn dymuno cymryd rhan, cysylltwch ar: 01286 679211 neu gwaithgwynedd@gwynedd.llyw.cymru

Cofiwch hysbysebu eich swyddi gwag ar hysbysfwrdd Gwaith Gwynedd:

https://www.facebook.com/groups/1169426113501265

# LLONGYFARCHIADAU: Cydnabyddiaeth fyd-eang i Ddistyllfa Dyfi

Llongyfarchiadau i Ddistyllfa Dyfi, Corris, am y cymeradwyaethau a gawsant yng ngwobrau byd-eang ‘Icons of Gin’ a gynhaliwyd yn Llundain yn ddiweddar. I ddarllen mwy, ewch i:

http://bit.ly/3M0ESYY

# HYFFORDDIANT: Rhaglen 10,000 o Fusnesau Bach Goldman Sachs yn y DU

Mae rhaglen 10,000 o Fusnesau Bach Goldman Sachs yn y DU wedi ei lunio i ddarparu cymorth busnes ac addysg ymarferol o safon uchel i arweinwyr mentrau cymdeithasol a busnesau bach gyda thwf uchel ar draws y DU. Bydd y rhai sy’n cymryd rhan yn y rhaglen yn elwa o weithdai arbenigol, cyfleoedd rhwydweithio, cyngor busnes a hyfforddiant. Mae mwy o wybodaeth ar gael ar:

http://bit.ly/431CZBE

# TRAFNIDIAETH: Diweddariadau

- Rhagarchebu lle parcio ym Mhen y Pass yn dechrau ar 1 Ebrill 2023, gwybodaeth ar gael ar: https://eryri.llyw.cymru/ymweld/yr-wyddfa/parcio-ar-gyfer-yr-wyddfa/

- Mae gwefan newydd ar gyfer Sherpa'r Wyddfa ar gael ar:
https://www.sherparwyddfa.cymru/

- Mae gwasanaeth bws Fflecsi Llŷn yn dechrau ar 1 Ebrill 2023, manylion ar:
https://www.fflecsi.cymru/locations/pen-llyn/

- Mae gwasanaeth Bws Ogwen yn dechrau ar 1 Ebrill 2023, manylion ar:
https://www.facebook.com/bwsogwen/

## TRETH: Cyfraddau llog taliadau hwyr CThEF yn cael eu diwygio Ebrill 2023

O ganlyniad i'r cynnydd diweddar yng nghyfradd sylfaen Banc Lloegr i 4.25% o 4%, bydd cyfraddau llog CThEF ar gyfer talu'n hwyr ac ad-dalu yn cynyddu.Bydd y newidiadau hyn yn dod i rym ar 3 Ebrill 2023 am randaliadau chwarterol a 13 Ebrill 2023 am randaliadau heb fod yn rhai chwarterol. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

http://bit.ly/3JNJQFU

## DIOGELWCH: Offer gwirio seiber ar gyfer BBaChau

Mae'r Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol (NCSC) wedi lansio dau offeryn diogelwch newydd wedi'u hanelu at fusnesau bach, microfusnesau, sefydliadau ac unig fasnachwyr sydd heb yr adnoddau i fynd i'r afael â materion seiber. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

http://bit.ly/40ADIHU

Mae mwy o wybodaeth defnyddiol i'w gael o:

## Cyngor Gwynedd – Cefnogaeth i Fusnes

https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19
https://twitter.com/BusnesGwynedd

## Rhwydwaith Busnes Gwynedd

https://www.gwyneddbusnes.net/Hafan
https://twitter.com/gwyneddbusnes

## Busnes Cymru

https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy/
https://twitter.com/_busnescymru

## Busnes@llandrillomenai

https://www.facebook.com/BusnesatLlandrilloMenai/posts
https://twitter.com/busnesLLM

## FSB Cymru

https://twitter.com/FSB_Wales

## Croeso Cymru

https://twitter.com/croesocymrubus

Cofrestru i dderbyn y newyddion diweddaraf
https://bit.ly/3klWPAU

---

Os nad ydych yn dymuno derbyn yr e-byst hyn bellach, os oes gennych gwestiwn, neu angen cyngor:
E-bostiwch busnes@gwynedd.llyw.cymru